
# Cylchoedd bywyd a chadwyni bwyd perllannau

## Cylchoedd bywyd


Cylch bywyd yw'r camau y mae peth byw yn mynd drwyddynt yn ystod ei fywyd. Mae pob anifail a phlanhigyn yn mynd drwy wahanol gamau. Mewn rhai achosion, mae'r broses hon yn raddol ac mewn achosion eraill gall y cyfnodau bywyd hyn ddigwydd yn gyflym. Proses barhaus yw cylchoedd bywyd, gyda hadau neu epil yn cael eu cynhyrchu i ddechrau'r cylch eto.




Mae perllan yn cynnal cylchoedd bywyd coed ffrwythau, ond mae hefyd yn gynefin pwysig sy'n cynnal rhywogaethau eraill gan gynnwys amrywiaeth o bryfed ac adar. Gelwir yr amrywiaeth o fflora (planhigion) a ffawna (anifeiliaid) a gynhelir gan gynefin yn fioamrywiaeth. Mae coed ffrwythau, gyda'u blodau, ffrwythau a changhennau yn darparu amrywiaeth o fwyd a lloches, gan gynnal amrywiaeth eang o fflora a ffawna ac felly maen nhw'n wych ar gyfer bioamrywiaeth.


Er enghraifft:

- **Titw tomos las**



Er enghraifft:

- **Gwyfyn mannog**



## Cadwyni bwyd

Mae cadwyn fwyd yn gyfres linol o beth sy'n bwyta beth, ac yn rhoi darlun o sut mae rhywogaethau'n cael eu hegni a'u maetholion. Mae perllan fioamrywiol yn cynnal ystod eang o gadwyni bwyd gwahanol.

Mae cadwyn fwyd bob amser yn dechrau gyda chynhyrchydd, sef organeb sy'n gwneud ei bwyd ei hun - planhigyn gwyrdd fel arfer. Mae planhigion yn creu eu hegni eu hunain drwy ffotosynthesis. Maen nhw'n cael eu hegni o'r haul ac felly does dim angen iddyn nhw ddefnyddio organebau eraill i gael egni. Yn y gadwyn fwyd, mae defnyddiwr yn beth byw sy'n bwyta planhigion ac anifeiliaid eraill i gael egni. Gelwir anifeiliaid sy'n bwyta anifeiliaid eraill yn ysglyfaethwyr. Gelwir yr anifeiliaid y mae ysglyfaethwyr yn eu bwyta yn ysglyfaethau.

- **Cynhyrchydd** – dechrau'r gadwyn fwyd, yn gallu gwneud ei fwyd ei hun, fel arfer yn blanhigyn
- **Defnyddiwr** – yn bwyta cynhyrchwyr (llysysydd), defnyddwyr eraill (cigysydd), neu'r ddau (hollysydd)
- **Ysglyfaethwr** – anifail sy'n ysglyfaethu anifeiliaid eraill
- **Ysglyfaeth** – anifail sy'n cael ei fwyta gan ysglyfaethwyr

Dyma rai cadwyni bwyd cyffredin y gellir eu gweld mewn perllan:


- **Dail – Lindysyn – Titw tomos las – Cath**
- **Blodau (paill a neithdar) – Gwenynen – Aderyn**
- **Ffrwythau – Gwlithen – Aderyn – Llwynog**
- **Dail sy'n pydru – Mwydyn/Pryf genwair – Draenog – Tylluan**
- **Ffrwythau – Llygoden – Tylluan**
- **Ffrwythau – Gwyfyn – Ystlum**

Mae cadwyni bwyd yn bwysig er mwyn deall hanfodion sut mae egni'n teithio rhwng rhywogaethau, ond maen nhw'n rhoi darlun gor-syml ac mewn gwirionedd, mae llawer o gadwyni bwyd yn gorgyffwrdd.

## Gweoedd bwyd

Mae llawer o anifeiliaid nad ydyn nhw wedi'u cyfyngu i un cynefin, felly mae gweoedd bwyd yn cynnwys yr ystod o gynefinoedd sy'n cynnal fflora a ffawna ardal arbennig. Gelwir y gymuned fiolegol hon yn ecosystem. Mae gweoedd bwyd yn cynnwys llawer o gadwyni bwyd cydgysylltiedig ac yn rhoi darlun mwy cymhleth a realistig o ddefnydd a throsglwyddiad ynni o fewn ecosystem.

Enghraifft o we fwyd mewn perllan:



### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government